# SL(5)798 – Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau sy’n hŷn na’r oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021

## Cefndir a Diben

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan adran 207(4) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010") a pharagraff 6F o Atodlen 17 i'r Ddeddf honno.

Mae'r Rheoliadau yn darparu personau sy’n hŷn na’r oedran ysgol gorfodol, a rhieni plant nad ydynt yn hŷn na’r oedran ysgol gorfodol, nad oes ganddynt alluedd, â’r hawl i ddod â hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd yn erbyn corff sy’n gyfrifol am ysgol yng Nghymru yn unol ag Atodlen 17 i Ddeddf 2010.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud hyn drwy ddarparu y caiff cynrychiolydd ddod â hawliad ar ran y rhiant neu'r person sy’n hŷn na’r oedran ysgol gorfodol nad oes ganddo alluedd. At ddibenion y Rheoliadau, nid oes gan berson alluedd o fewn ystyr “lacks capacity” yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 (“Deddf 2005”), hynny yw, pan nad oes ganddo alluedd meddyliol, nid galluedd cyfreithiol.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyfeiriadau yn adran 86 o Ddeddf 2010 gael eu darllen yn wahanol fel na all disgyblion, a phersonau sy'n gwneud cais i fod yn ddisgyblion, gael eu herlid oherwydd gweithredoedd gwarchodedig penodedig gan y cynrychiolydd, megis dwyn achos o dan Ddeddf 2010.

Bydd y rheoliadau yn dod i rym ar 1 Medi 2021.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae rheoliadau 3, 4 a 5 o'r Rheoliadau hyn, a ddaw i rym ar 1 Medi 2021, yn cyfeirio at ddarpariaethau yn Atodlen 17 i Ddeddf 2010 fel y'u mewnosodwyd yn ôl-weithredol gan baragraff 19 o Atodlen 1 i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018").

Felly, bydd angen dwyn darpariaethau perthnasol paragraff 19 i rym erbyn 1 Medi 2021, yn unol â Gorchymyn Cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 100(3) o Ddeddf 2018, er mwyn i ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn weithredu'n effeithiol.

Mae paragraff 3.7 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau:

> *"Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu arfer eu pwerau cychwyn (o dan adran 100 o'r Ddeddf) i ddarparu bod swyddogaethau o dan y Ddeddf yn dod i rym mewn camau o 1 Medi 2021."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**18 Mawrth 2021**